**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun, Gorffennaf 20fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes, Rob Parkes, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Shereen Devine, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1 **Datgan Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad:

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fehefin 15fed 2015.**

3. **Materion yn codi.** Mewn ateb i gwestiwn oddi wrth y Cyng Medwyn Williams, dywedodd clerc y dref na dderbyniwyd ymateb oddi wrth GSDd ynglŷn â'r datblygiad yn y Brwcws.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Tir i'r dwyrain o Lyn Brenig, Nantglyn - adeiladwaith a gweithrediad fferm wynt yn cynnwys un ar bymtheg o dyrbinau gwynt ac adeiladwaith cysylltiol ac ati.
(2) 38 Stryd y Parc - gosod ffenestri newydd.

5. **Materion Cynllunio eraill:**

(1) Planning Aid Wales - gweithdy hyfforddiant cynllunio - 28.7.15 - Neuadd Bentref Trefnant - Nodwyd - y Cyng Mark Young, Margaret Bowe, Shereen Devine yn mynychu.
(2) Bwriad i uwchraddio canolfan safle yn CT1L 123060 VF 89117, TEF 004450 DINBYCH, Stâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych. Cytunwyd i gefnogi'r cais.
(3) Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod cais cynllunio Home Bargains ar cyn safle Kwik Save wedi ei basio.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.15 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................